Cymorth Tai Gwag

Dyma gynllun newydd cyffrous i wella, adnewyddu a dod ag adeiladau segur o fewn lleoliadau canol tref Gwynedd yn ôl i ddefnydd, sydd yn rhan o gronfa Trawsnewid Trefi gan Llywodraeth Cymru.

Nod y prosiect yw targedu adeiladau segur mewn lleoliadau canol tref a'u dychwelyd i lety rhent diogel, sicr a fforddiadwy ar y farchnad breswyl, er mwyn ysgafnhau'r baich a'r defnydd presennol o lety Gwely a Brecwast o fewn y sector digartref. Mae Cyngor Gwynedd yn anelu at gyflawni hyn trwy ddarparu cyngor, cefnogaeth a, lle bo'n berthnasol, cymorth grant. Yn gyfnewid am grant o dan y cynllun, bydd eiddo yn destun cytundeb enwebu lle bydd yr Awdurdod Lleol yn eu defnyddio mewn cysylltiad â dyletswyddau ailgartrefu sy'n ddyledus o dan y ddeddfwriaeth digartrefedd.

Bydd y cynllun yn gweithredu fel grant dewisol i unigolion preifat. Er mwyn bod yn gymwys i gael ei ystyried, rhaid i eiddo fod wedi bod yn wag neu heb ei ddefnyddio am o leiaf 6 mis ar adeg yr ymholiad cychwynnol i'r Awdurdod Lleol. Ni fydd prawf modd yn cael ei gymhwyso. Bydd y cyllid grant sydd ar gael yn cynnwys 70% o gostau hyd at uchafswm o £20,000. Gall HMOs dderbyn £10,000 yr uned. Gall grantiau trosi dderbyn £15,000 yr uned. Mae'r amodau'n parhau am 5 mlynedd. Rhaid i eiddo fod ar gael fel PSL neu ei osod i berson lleol ar y rhestr aros am dŷ am rent tebyg i LTLl i bobl leol.

Er mwyn sicrhau bod yr eiddo sy'n cael ei wella o dan y cynllun yn fforddiadwy i bob aelwyd (yn enwedig y rhai ar incwm cyfyngedig), bydd rhenti a godir yn ystod cyfnod amod grant o 5 mlynedd yn cael eu capio ar y Lwfans Tai Lleol perthnasol.

Mae’r grant ar gael ar gyfer eiddo gwag sydd wedi ei leoli yn yr ardaloedd isod:

- Bangor
- Caernarfon
- Porthmadog
- Dolgellau
- Y Bala
- Nefyn
- Blaenau Ffestiniog
- Pwllheli
- Tywyn
- Aberdyfi
- Bermo
- Harlech
- Penrhyndeudraeth
- Criccieth
- Abersoch
- Penygroes
- Llanberis

- Bethesda

Cysylltwch â'r Tîm Tai Gwag am ragor o wybodaeth ar taigwag@gwynedd.llyw.cymru neu 01286 682621